Cwpl yn gallu rhannu ystafell wely oherwydd anabledd

- **Ydych chi a'ch partner yn methu â rhannu ystafell wely oherwydd eich anabledd corfforol?**

- **Ydych chi a'ch partner yn cysgu mewn ystafelloedd gwely ar wahân oherwydd hyn?**

Os ydy'r ateb i'r holl gwestiynau hyn yn gadarnhaol, yna o 1 Ebrill 2017 efallai y bydd y cymorth a gewch gyda'ch rhent yn gallu ystyried hyn.

O fis Ebrill 2017, gellir ystyried ystafell wely ychwanegol wrth gyfrifo faint o Fudd-dal Tai i'w dalu i chi os ydych yn rhan o gwpl ac mae eich awdurdod lleol yn fodlon na allwch chi a'ch partner rannu ystafell wely oherwydd eich anabledd chi neu anabledd eich partner (er enghraifft, os ydych chi neu eich partner yn cael offer meddygol, fel gwely ysbyty neu declyn codi, sy'n eich atal rhag rhannu gwely ac nid oes digon o le yn yr ystafell wely ar gyfer dau wely ar wahân).

Byddai angen ystyried eich holl amgylchiadau i benderfynu a allwch gael mwy o arian. Bydd hyn yn cynnwys p'un ag oes gennych chi neu'ch partner yr hawl i rai budd-daliadau anabledd.

O credwch y gallech fod yn gymwys i gael cymorth gyda chost ystafell wely ychwanegol, siaradwch ag ymgynghorydd, neu cysylltwch â'r adran fudd-daliadau yn:

Adran Budd-dal Tai o
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar 01492 576491

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL